



CYLCHLYTHYR LLWYBRAU CELTAIDD

Croeso i gylchlythyr Llwylbrau Celtaidd mis Gorffennaf 2021.

Isod, gwelwch ddiweddariad ar ein cynnydd hyd yn hyn, newyddion am adnoddau newydd i'ch helpu i wneud y gorau o'r brand Llwylbrau Celtaidd, a chynlluniau'r prosiect ar gyfer y dyfodol, sy'n annog teithwyr i ddarganfod ysbryd Celtaidd Cymru ac Iwerddon.

DYFARNU CYTUNDEB MARCHNATA NEWYDD

Ym mis Mehefin cyhoeddwyd gennym fod cwmni Orchard o Gaerdydd, sy'n arbenigwyr yn y cyfryngau a digwyddiadau, wedi cael ei benodi i gyflawni Cytundeb Marchnata a Darparu ar gyfer Llwylbrau Celtaidd.

Prif swyddogaeth y cytundeb hwn fydd cynyddu a lledaenu arhosiad ymwelwyr a gwariant ymwelwyr ledled ardaloedd y Llwylbrau Celtaidd (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion, Wicklow, Wexford a Waterford) a fydd yn cynnwys

meithrin gwybodaeth am y genhadaeth y Llwylbrau Celtaidd ymhlith busnesau a hwyluso amgylchedd creadigol lle gall syniadau a phartneriaethau yn ffynnu, ac i feithrin rhwydwaith ehangach o gyflenwyr creadigol.

Ariennir y cytundeb hwn yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020. Caiff y contract ei gydlynu gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar ran y chwe phartner.

YR ADDEDWID CELTAIDD

**WRTH DEITHIO AR HYD
LLWYBRAU CELTAIDD:**

Byddaf yn chwilio am antur,
Ac yn barod ar gyfer pob tywydd a digwyddiad posibl.

Byddaf yn defnyddio cludiant cyhoeddus lle gallaf,
A byddaf yn ystyriol o eraill pan fyddaf yn teithio ar fy liwt fy hun

Byddaf yn archwilio natur,
Ac yn cadw pellter parchus er mwyn ei ddiogelu.

Byddaf yn coleddu'r gorffennol,
Ac ni fyddaf yn cymryd yr hyn nad yw'n eiddo i mi.

Byddaf yn gwarchod y presennol,
Ac ni fyddaf yn gadael dim i eraill ei lanhau.

Byddaf yn cerdded yn olion traed yr hen Geltiaid, Gan adael dim olion fy hun.

[Cofrestrwch a gwnewch yr addewid heddiw.](#)

BETH SY'N NEWYDD AR Y WEFAN?

Mae'r ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod prysur ar wefan Llwybrau Celtaidd am i ni fod yn gosod llawer o gynnwys newydd arni er mwyn rhannu gwybodaeth ac ysbrydoli ymwelwyr newydd.

Un o'r tudalennau newydd diweddaraf i fynd yn fyw yw 'Ein Straeon Celtaidd' sy'n cynnwys 19 o ffilmiau byrion newydd, a ffilmiwyd mewn lleoliadau megis Pumlumon, Ardmore a Lough Tay.



Mae pob ffilm yn dangos unigolyn go iawn o'r ardal yn rhannu ei stori personol ei hun am bob lleoliad, o'r cyfarwyddwr theatr, Jeremy Turner yn trafod teyrnas danddwr hynafol Cantre'r Gwaelod ym Mae Ceredigion, i barcmon Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Lynne Houlston, yn trafod Capel Sant Gofan sy'n drysor cudd ar wyneb clogwyn ger Bosherton yn Sir Benfro.

Mae'r holl fideos hyn ar gael i chi eu lawrlwytho ar wefan Llwybrau Celtaidd trwy ein


llyfrgell asedau rad ac am ddim, a grëwyd i'ch helpu i hyrwyddo eich busnes neu sefydliad.

Mae'r llyfrgell asedau yn cynnwys miloedd o ffotograffau a fideos proffesiynol o leoliadau ledled chwe sir Llwybrau Celtaidd – Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Wexford, Wicklow a Waterford.

Bwriad y llyfrgell asedau yw darparu adnoddau marchnata gweledol o ansawdd uchel a fydd yn eich helpu i gychwyn ar eich taith Llwybrau Celtaidd gyda ni.

I archwilio ein dewis helaeth o ddelweddau a fideos, sgroliwch i waelod tudalen gartref ein gwefan a chliciwch ar y tab tudalen fasnach Cysylltiadau Busnes a

chofrestrwch i gael mynediad, lle byddwch yn rhydd i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, ar yr amod eich bod yn cadw at y Telerau Defnyddio ac yn cydnabod Llwybrau Celtaidd.



DIGWYDDIADAU LEDLED Y LLWYBRAU CELTAIDD

Cloddfa archaeolegol ar fryngaer Pen Dinas, Ceredigion

Cyflwynwyd cynlluniau i gynnal cloddfa archaeolegol ar fryngaer Oes Haearn Pen Dinas yn Aberystwyth yr haf hwn. I gael rhagor o wybodaeth ac i wirfoddoli, ewch i:

www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/cy/

Abaty Ystrad Fflur, Ceredigion

Mae arddangosfa newydd â olrhain hanes ffermdy Mynachlog Fawr (ger safle adfeilion yr abaty, sydd yng ngofal Cadw) Bydd yr arddangosfa yn agor ar 31 Gorffennaf 2021 gyda taith amser rithwir sy'n ail greu'r safle, gallwch gwrrdd â'r cymeriadau ac archwilio'r adeilad, gan weld sut roedd bywyd yn cael ei fyw ar y fferm

<https://cy.stratafloridastrust.org/mynachlog-fawr-exhibition>

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Ailagorodd yr arddangosfeydd ar 19 Gorffennaf (slotiau wedi'u harchebu ymlaen llaw). Mae gwybodaeth ar gael yma:

<https://www.llyfrgell.cymru/ymweld-a-ni/pethau-iw-gwneud/arddangosfeydd>

RSPB Ynys-hir a Biosffer Dyfi, Ceredigion

Mae cyfres o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn ystod yr haf yng ngwarchodfa RSPB Ynys-hir sydd yn ardal Biosffer Dyfi. Ewch i

<https://www.rspb.org.uk/reserves-and-events/reserves-a-z/ynys-hir/> a

www.biosfferdyfi.cymru i gael gwybodaeth.

Amgueddfa Amser Iwerddon, Waterford

Mae Amgueddfa Amser Iwerddon newydd agor yn ystod yr haf, a dyma'r unig amgueddfa horolegol ar ynys Iwerddon. Mae'n ymfalchio yn ei chasgliad o oriorau a chlociau Gwyddelig nad oes ei debyg yn y byd. Gall ymwelwyr fwynhau profiad hunan-dywysedig gydag arddangosfeydd rhyngweithiol yn adrodd hanes darnau sylweddol yr amgueddfa, a'r rheiny wedi'u gosod dros ddau lawr. Mae gwybodaeth ar gael yma:

www.waterfordTreasures.com

Tymor Haf Spraai 2021, Waterford

Mae Gŵyl Celfyddydau Stryd Ryngwladol Spraai yn dychwelyd yr haf hwn. Mae Spraai yn cael ei thrawsnewid o fod yn ŵyl dridiau i fod yn Dymor Spraai o ddigwyddiadau a gynhelir ar safleoedd lluosog yn ninas a swydd Waterford yn ystod mis Awst. Mae gwybodaeth ar gael yma:

https://visitwaterford.com/vw_news/spraii-summer-festival/



YN DOD YN FUAN ... COMICS LLWYBRAU CELTAIDD

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn datblygu cyfres o gomics newydd cyffrous yn arddangos mythau a chwedlau ardaloedd Llwybrau Celtaidd ar ffurf llyfrau comig clasurol sydd wedi'u cynllunio i apelio at gynulleidfaoedd iau, a'u haddysgu.

Cynlluniwyd chwe comic sy'n cynnwys chwedlau unigol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion, Wicklow, Wexford a Waterford, ac maent ar gael mewn fformatau digidol a phrint.

Bydd y comics Llwybrau Celtaidd ar gael yn fuan i'w gweld a'u lawrlwytho yn ddigidol o [wefan Llwybrau Celtaidd](#).



DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y CYFRYNGAU

Fel rhan o'n hymgyrch cyswllt â'r cyfryngau i hyrwyddo Llwybrau Celtaidd, rydym yn gweithio gyda dwsinau o newyddiadurwyr cenedlaethol a dylanwadwyr y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Llwybrau Celtaidd i gynulleidfaoedd yr ydym yn gwybod eu bod wrth eu bodd yn darllen am gyrchfannau teithio sydd yn eu hysbrydoli.

Ar ôl deunaw mis anodd a arweiniodd at ganslo nifer o deithiau a gynlluniwyd i'r wasg, rydym yn falch o ddweud bod teithiau i'r cyfryngau a dylanwadwyr bellach yn mynd rhagddynt ledled ardaloedd Llwybrau Celtaidd.

Mae tair taith wedi'u trefnu gyda'r Telegraph i gyrchfannau ledled Llwybrau Celtaidd Cymru yn ystod

y misoedd nesaf, ac yn lwerddon bydd gohebwyr o'r Irish Sun, y Wicklow People a'r Wexford People yn ymweld â lleoliadau yn lwerddon ym mis Gorffennaf.

Rydym hefyd yn cysylltu â newyddiadurwyr o gyhoeddiadau sy'n cynnwys OK!, The Daily Mirror, Coast, The Irish Times, The Guardian, Country Walking a rhagor, a byddant oll yn ymweld â lleoliadau ledled Cymru ac lwerddon yn ystod y chwe mis nesaf a thu hwnt.

A 'nawr bod y cyfyngiadau ar deithio yn cael eu llacio ymhellach, gallwn ddechrau trefnu teithiau i gyfryngau'r DU i lwerddon. Byddwn yn rhoi diweddariad ar hynny yn ein cylchlythyr nesaf!



GWEITHIO GYDA DYLANWADWYR TEITHIO


Ar ddechrau mis Gorffennaf aeth ein partneriaeth ddigidol â'r blogiwr teithio arobryn **Brogan Abroad** yn fyw.

Cyhoeddwyd dau flog am Llwybrau Celtaidd gan Teresa, y fenyw y tu ôl i'r brand – un am [Iwerddon](#), ac un am [Gymru](#), ynghyd â llu o gynnwys cyfryngau cymdeithasol ar draws [Facebook](#), [Twitter](#) ac [Instagram](#), gan gynnwys [Riliau](#) a [Straeon](#), a gafodd ymateb trawiadol gan ei dilynwy.

At hynny, ym mis Mehefin croesawyd [Loz's Leisure](#) i Gymru, unigolyn sy'n rhannu

deunydd teithio ar YouTube, a ranodd ei antur yng Ngorllewin Cymru gyda'i ddilynwy, 5.7 mil ohonynt ar Instagram, 2.3 mil ar on Facebook a 34.7 mil o danysgrifwyr YouTube.

Trwy gyfres o [Riliau](#), [Straeon](#) a [phostiadau grid](#) ar Instagram, rhannodd Laurence ei anturiaethau ledled Gorrlewin Cymru. Disgwylir i fersiwn hir o fideo YouTube am ei daith fynd yn fyw yn fuan.



LLWYBRAU CELTAIDD AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Dilynwch a rhannwch gynnwys Llwybrau Celtaidd ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun, ac ymgysylltwch â'r cynnwys.

Rydym yn postio cynnwys sawl gwaith yr wythnos ar draws Facebook, Instagram a Twitter, a byddai eich cefnogaeth ar y cyfryngau cymdeithasol yn helpu i gynyddu nifer ein dilynwyr ymhlith eich cynulleidfaoedd twristiaeth, ac yn cynorthwyo o ran gyrru ymwelwyr i'n tiroedd Celtaidd.

Byddwn yn sicr o rannu eich cynnwys ac ymgysylltu â'r cynnwys hwnnw yn ein tro!

 [@CelticRoutes](#)

 [@CelticRoutes](#)

 [@CelticRoutes](#)

#CelticRoutes

#MyCelticMoment

#LlwybrauCeltaidd

